

Gwerthusiad critigol ac adnabod camau dysgu ag addysgu nesaf, yn ffocysu ar astudiaeth achos o ddysgwr unigol neu grŵp o ddysgwyr, wedi'u sefydlu ar ddigwyddiad critigol a wylwyd.

Cyflwyniad

Yn yr ugain mlynedd diwethaf, mae addysg yng Nghymru wedi datblygu i lwybrau newydd er mwyn "...meithrin uchelgais ac yn annog dysgu am oes" (Hawlfraint y Goron, 2017, tud. 2). Mae'r maes addysg nawr yn ffocysu ar ddatblygiad cyfannol yr unigolyn. Mae'r cwricwlwm newydd yn ceisio hyrwyddo disgyblion sydd yn cyrraedd eu potensial academiaidd, yn ogystal â datblygu dinasyddion iach a hyderus (Hawlfraint y Goron, 2015).

Mae'r aseiniad yma yn gofyn am werthusiad critigol ar achos gydag unigolyn, neu grŵp o ddysgwyr mewn lleoliad addysgiadol. Gofynnir yr aseiniad i ddehongli, ac i ddeall y camau nesaf yn dysgu ac addysgu. Defnyddir model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) er mwyn dadansoddi'r digwyddiad. Fe fydd yr achos yn cael ei arsylwi, dadansoddi, gwerthuso, a'i edrych o wahanol theorïau dysgu. Trafodir y mathau o fethodoleg yn ymchwil addysgiadol, ac edrych ar effeithiolrwydd astudiaeth achos fel dull o ymchwilio. Mae'r achos critigol yn mynd i gael ei gysylltu gyda'r pedwar diben o'r cwricwlwm newydd Dyfodol Llwyddiannus (Hawlfraint y Goron, 2015). Fe fydd argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu trafod ar ddiwedd yr astudiaeth achos.

Mae Tripp (1993, tud. 8) yn disgrifio achos critigol fel rhywbeth sy'n digwydd o ganlyniad i bersbectif yr ymchwilydd, a sut rydym yn dehongli'r achos, nid rhywbeth mawr negyddol. Dyweda Tripp (1993, tud. 9) bod angen gofyn beth wnaeth ddigwydd, a beth wnaeth achosi hyn i ddigwydd. Mae hwn yn cysylltu gyda Safonau Proffesiynol yng Nghymru, sef "cynyddu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth yn gyson a gall ddangos sut mae myfyrio a bod yn barod i gael ei herio a'i gefnogi yn gallu cyfrannu at ddysgu proffesiynol er mwyn datblygu addysgeg yn raddol" (Llywodraeth Cymru, 2019a, tud. 16).

Arsylwi

Yr ysgol lle caiff yr ymchwil eu cynnal yw ysgol gynradd Cymraeg yn Ne Cymru. Mae'r ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gaiff ei arsylwi diwethaf gan Estyn yn 2016 (Estyn, 2016). Does dim llawer o amrywiaeth mewn ethnigrwydd, ac iaith gyntaf bron pob disgybl yw Saesneg (Estyn, 2016). Mae'r ysgol yn fwy isel na'r cyfartaledd cenedlaethol ar brydiau ysgol am ddim, ag anghenion dysgu ychwanegol (Estyn, 2016). Mae'r ysgol yng nghategori cefnogaeth gwrydd, sy'n golygu eu bod nhw angen y lleiaf o gefnogaeth (Llywodraeth Cymru, 2019b).

Penodwyd Pennaeth newydd llynedd. Mae tua 300 o ddisgyblion yn yr ysgol, gyda dosbarthiadau oedran pur a chymysg. Mae yna 11 dosbarth, ac mae maint dosbarthiadau yn amrywio hyd at 30 o ddisgyblion. Mae'r adeilad yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd gyda dodrefn newydd, paent a newid ystafelloedd dosbarth. Mae yna ystafell ddosbarth y tu allan sy'n cael ei defnyddio yn ystod amseroedd gwersi; mae iard ac ardal o wyrdd hefyd.

Mae'r dosbarth a chaiff ei ymchwilio, yn gymysgedd o ddisgyblion dosbarth derbyn a blwyddyn un. Mae yna athro dosbarth ac un swyddog cymorth dysgu. Mae'r ystafell o faint da, ac mae darpariaeth barhaus ar gyfer disgyblion. Mae arddangosfeydd wal gyda gwaith disgyblion arnyn nhw; mae lliw a golau yn yr ystafell. Mae disgyblion derbyn ac un yn cael eu cymysgu gyda'i gilydd mewn grwpiau tra yn yr ystafell ddosbarth. Arsylwyd yn y dosbarth dros gyfnod o ddau ddiwrnod, yn cyflawni pedwar arsylwad, a phedwar BWA.

Methodoleg

Cydnabuwyd ac ystyriwyd materion moesegol trwy gydol yr astudiaeth ymchwil. Mae British Educational Research Association (BERA) yn ysgrifennu "...educational researchers should operate within an ethic of respect for any persons – including themselves – involved in or touched by the research they are undertaking" (BERA, 2018, tud. 6). Mae'n bwysig cydnabod gogwydd ymchwilydd wrth gynnal arsylwad ac astudiaeth achos. Yn yr astudiaeth hon, yr amcan oedd arsylwi digwyddiad mewn amser go iawn, a dadansoddi ar ôl y digwyddiad. Cymerid pob ymdrech i arsylwi a chofnodi'n gywir, heb farnu na hepgor gwybodaeth.

Dyweda Cohen, Mannion a Morrison (2011, tud. 464) bod adegau pan nad oes angen dibynadwyedd neu gysondeb yn arsylwadau. Yn achosion critigol, fe fydd pethau'n digwydd sydd yn arwyddocaol neu'n amlygu (Cohen, Mannion a Morrison, 2011, tud. 464). Dewiswyd dull arsylwi er mwyn arsylwi ymddygiad a digwyddiadau mewn amgylchedd naturiol, ac i'r ymchwilydd fod yn dyst iddo'i hun. Mae wahanol fathau o ddulliau arsylwi, arsylwi cyfranogwyr, arsylwi di-gyfranogwyr, strwythiedig, a heb strwythr (Denscombe, 2017). Mae manteision ac anfanteision i bob un o'r dulliau.

Y math o arsylwi a ddefnyddiwyd, oedd arsylwi cyfranogwyr, heb strwythr. Arsylwad heb strwythr yw lle mae'r ymchwilydd yn arsylwi cyn penderfynnu ar arwyddocad yr ymchwil (Cohen, Mannion a Morrison, 2011, tud. 457). Mae Bell (2009, tud.186-187) yn codi syniadau gritigol am arsylwadau cyfranogwyr, dyweda bod hi'n anodd i gymryd cam ynol, ac yn ymwybodol o'r beryglon o ragfarn gan yr ymchwilydd. Mae Cohen, Mannion a Morrison (2011, tud. 457) yn trafod syniadau Gold (1958) lle un fath o arsylwi yw "observer-as-participant", lle mae bach o gymryd rhan, ond y rol yw i fod yn anymwthiol a phosib. Yn gytun, awgryma Denscombe (2017, tud. 234) bod arsylwi cyfranogwyr yn caniatáu'r

ymchwilydd i fod yn rhan o'r arsylwad, ac arsylwi ar fanylion heb effeithio gormod ar yr awyrgylch naturiol. Mae Cohen, Mannion a Morrison (2007, tud. 253) yn ysgrifennu ei bod yn bwysig i sefyllfaoedd siarad drostynt eu hunain yn hytrach na chael eu barnu.

Defnyddir astudiaeth achos i gasglu gwybodaeth am un pwnc, neu sefyllfa benodol mewn pryd. Mae Cohen, Mannion a Morrison (2007, tud. 253) yn ysgrifennu bod astudiaeth achos "provides a unique example of real people in real situations..." Mantais hyn yw y gellir dadansoddi, dehongli, adolygu, a rhoi argymhellion ar sefyllfa neu ddigwyddiad. Yn ogystal â Cohen, Mannion a Morrison (2007), mae Denscombe (2017) yn credu'n debyg am bwrpas astudiaeth achos. Creda Denscombe (2017, p. 59) bod mantais astudiaeth achos yw'r rhyddid i ddisgrifio a dehongli gwybodaeth er mwyn deall achosion.

Wedi dweud hyn, mae anfanteision i astudiaethau achos a thrafodir gan Bell a Waters (2018). Mae rhai yn cwestiynnu'r gwerth o astudio achos unigol, a'i bod hi'n anodd croeswrio (Bell and Waters, 2018, tud. 43). Yn ogystal â hyn, mae trafodaeth am "selective reporting and the resulting danger of distortion" (Bell and Waters, 2018, tud. 43). Dadl debyg sydd gan Cohen, Mannion a Morrison (2007, tud. 256), sy'n amlygu'r gwendidau o groeswrio, tuedd, a bod yn ddetholiadol. Er hyn, astudiaethau achos yw'r dull fwyaf addas am yr ymchwiliad yma, am ei fod yn caniatáu'r ymchwilydd i arsylwi ar achos critigol, ac adnabod y camau dysgu ac addysgu nesaf.

Achos Beirniadol

Gwelodd yr aseiniad pedwar achos critigol, a fyddwn yn ffocysu ar Arsylwad 1 (Gweler Atodiad 1, tud. 13-14). Cafodd y disgyblion mewnbwn ar y carped, ac yna rhannu i grwpiau ffocws a grwpiau ar ddarpariaeth. Ar ddarpariaeth, fe welwyd Plentyn A yn crwydro'r dosbarth yn edrych am leoliad i fynd i chwarae. Ar ôl gofyn i fynd i'r ardal baentio, aeth draw i ddechrau creu llun. Yn ystod creu llun, aeth Plentyn A yn ôl ac ymlaen i'r cynorthwydd i ofyn am wahanol liw paent, ac edrych am fach o gysur. Edrychodd Plentyn A yn swil ac anesmwyth trwy'r dasg. Rhoddodd y cynorthwydd cymorth a chyfarwyddiadau. Ni siaradodd neu ofyn i'w gyfoedion am rannu paent fel awgrymodd y cynorthwydd dosbarth. Edrychodd Plentyn A ar gyfoedion yn newid lliwiau paent, a chopio. Llwyddodd Plentyn A i greu llun, dangosodd i'r cynorthwydd, a chafodd 'Da iawn!' ohoni, rhoddodd y llun i sychu, cyn crwydro'r dosbarth eto. Dangoswyd yr achos yma fod Plentyn A yn medru cyflawni tasg, ond angen cymorth trwyddo er mwyn cyflawni. Cafodd Plentyn A hefyd ei harsylwi yn Arsylwad 2 (Gweler Atodiad 2, tud. 15-16), ac mae arsylwad 2 hefyd yn adlewyrchu diffyg hyder a diffyg cymryd cyfleoedd, one fe fyddwn yn ffocysu ar Arsylwad 1.

Dywedodd Gweinidog Addysg yng Nghymru "Gyda'n gilydd rydym yn gyfrifol am sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf" (Yr Athrofa,

2018). Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus gan Graham Donaldson (2015) yn ffocysu ar bedwar dibennion yn y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae adroddiad Dyfodol Llwyddiannus (Hawlfraint y Goron, 2015, tud. 31) yn amlinellu y dylai'r cwricwlwm newydd i Gymru creu disgyblion sydd yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn unigolion iach, hyderus; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus.

Fe welir o'r achos critigol bod Plentyn A angen datblygu i ddod yn ddisgybl iach a hyderus. Nodweddion i fod yn ddisgybl iach a hyderus yw'r sgil a gwybodaeth i ddelio a bywyd pob dydd, a datblygu i fod yn annibynnol (Hawlfraint y Goron, 2015, tud. 31). Wrth edrych yn ol ar Blentyn A, mae'r elfen annibyniaeth yn eisiau yn y sefyllfa yma. Mae Plentyn A wedi mynd yn ol i gael cymorth am achos eithaf syml e.e. newid lliw paent, elfen a ddisgwylir i blentyn Blwyddyn 1 gyflawni'n annibynnol. Yn niben iach a hyderus, disgwylir disgyblion i fod yn hyderus ac yn wydn. Gwelir yn achos Plentyn A, bod dim digon o hyder i wneud penderfyniadau neu i ofyn am gymorth o gyfoedion sy'n paentio wrth ymyl (Gweler Atodiad 1, tud. 13-14).

Edrychwn hefyd ar ddiben gyfranwyr mentrus, creadigol. Dywedir yn y diben yma bod angen datblygu disgyblion sy'n "adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt" (Hawlfraint y Goron, 2015, tud. 31). Cafodd Plentyn A cyfle i ddysgu a manteisio y tro gyntaf aeth i ofyn am gymorth o'r cynorthwyydd, fe ddylai Plentyn A wedi gallu cymryd yr argymhelliad yma a'i defnyddio yn yr ail achos. Trafodir dau faes a oedd yn deillio o'r achos critigol, dysgu o gyfoedion a chanmoliaeth lafar.

Llenyddiaeth

Un o'r meysydd sydd â phwyslais mawr yn addysg heddiw yw datblygiad personol a chymdeithasol unigolion. Un o'r meysydd sydd yn mynd i ddod mewn i'r cwricwlwm newydd yw'r maes Iechyd a Lles. Mae'r maes yma yn mynd i gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygiad cyfannol y disgybl. Dyweda Dowling (2010, tud. 12) bod rhan fwyaf o rieni yn credu taw'r rôl bwysicaf addysgu yw datblygu sgiliau cymdeithasol, a hybu hyder. Hefyd, creda Crawley (2017, tud. 177) bod angen i blant ddatblygu set o sgiliau cymdeithasol, sef hunan ddelwedd bositif, rhyngweithio gyda chyfoedion a chyfeillgarwch.

Mae Pritchard (2014, tud. 26) yn dadlau bod llawer o ddysgu yn cymryd lle mewn amgylcheddau gwahanol a thu hwnt i'r ysgol, felly nid yn unig athrawon sydd yn medru hybu'r dysgu, ond cyfoedion hefyd. Barn Vygotsky oedd "Infants and children are social beings able to engage with others but can do little by themselves" (Crawley, 2017, tud. 87). Creda'r ysgol adeiladaeth gymdeithasol bod dysgu yn dod o'r amgylchedd o'n cwrpas ar berthnasau rydym yn adeiladu. Mae theoriâu yr ysgol adeiladaeth yn cael eu cydnabod

heddiw fel theorïau cryf, ac yn cael eu gweithredu mewn ysgolion a chwmpasu mewn polisïau addysg.

Un o feysydd astudiodd Jean Piaget a Lev Vygotsky oedd edrych ar rôl gyfoedion i hybu dysgu plant. Credodd Piaget bod dysgu o gyfoedion yn dal yr un statws a dysgu o oedolyn, am fod y ddau yn “beneficial for cognitive development” (1989, Tudge and Rogoff dyfynnwyd yn Crawley, 2017, tud. 179-180). Trafodir Piaget y gwerth o ddysgu sgiliau, cyfathrebu a datblygiad deallusol a oedd yn medru dod trwy ddysgu o gyfoedion (Gray and MacBlain, 2015, tud. 84). Damcaniaeth Piaget oedd bod dysgwr mwy deallus yn medru dysgu'r plentyn arall, a fydd y ddau yn buddio o'r broses yma (Gray and MacBlain, 2015, tud. 84).

Creda Vygotsky yn debyg i Piaget, a phwysleisio y dylai un aelod o'r tîm fod yn fwy profiadol na'r llall er mwyn fod yn fwy effeithiol (Gray and MacBlain, 2015, tud. 84). Galwodd y person neu blentyn yma yn “More Knowledgeable Other” (Abtahi, 2017). Dyweda Stone (2012, tud. 280) bod potensial y plentyn yn dod yn amlwg gyda datblygiad dynamig rhwng oedolion a chyfoedion mwy galluog.

Datblygodd Vygotsky theori ‘Parth Datblygiad Agosrwydd’, lle trafodir am ddau lefel wahanol o gyfleoedd dysgu (Crawley, 2017, tud. 87). Y lefel isaf yw'r parth lle mae'r plentyn yn medru dysgu a gwneud pethau yn annibynnol, lefel uchaf yw lle mae'r plentyn yn medru llwyddo gyda chymorth, rhwng y lefleau yma yw'r Parth Datblygiad Agosrwydd (Gray and MacBlain, 2015, tud. 100). Dywedir Prichard (2015, tud. 26) a Gray a MacBlain (2015, tud. 100) bod y cymorth yn debygol o ddod oddi wrth athro. Fodd bynnag, dywedodd Vygotsky, mae'r cymorth yn medru dod oddi wrth “adult guidance or in collaboration with more capable peers” (Abtahi, 2017).

Yn ymchwiliad Abtahi (2017) fe astudiodd dau fachgen ar dasg. Darganfydded y ddau ohonynt ar adegau gwahanol fel y “More Knowledgeable Other (MKO)”, sy'n cefnogi'r theory Vygotsky bod MKO yn medru bod yn gyfoedion. Er hyn, mae'n werth nodi bod materion o ddiffinio'r MKO wedi ymddangos yn yr ymchwil, a bod yr ymchwilydd yn sgeptig o effaith yr MKO (Abtahi, 2017).

Mae Dowling (2010, tud. 42) yn cytuno gyda'r damcaniaeth o ddysgu o gyfoedion, ac yn pwysleisio'r rhyngweithio rhwng plant yn dysgu, chwarae a byw gyda'i gilydd. Sefydliadau sydd yn arbenigo mewn dysgu trwy gyfoedion yw ysgolion Reggio Emilia. Mae sefydliadau Reggio Emilia yn cael eu dylanwadu'n drwm gan theori Vygotsky (Stone, 2012, tud. 276). Un o'r prif ffocws, yw pwysleisio ddatblygu gwybodaeth trwy berthnasau (Learning and Teaching Scotland, 2006, tud. 1). Mae Dowling (2010, tud. 43-44) yn ysgrifennu bod gweithdrefnau'r ysgol yn hybu dysgu o gyfoedion, trwy wneud llawer o brosiectau a gwaith grŵp, yn enwedig heb gymorth neu ymyrraeth oedolyn.

Yn ogystal ar theorïau dysgu a datblygu, mae Dylan Wiliam yn trafod dysgu o gyfoedion. Dywed Wiliam (2017, tud. 156) am bedwar factor dysgu o gyfoedion, megis cymhelliant, cydlyniant cymdeithasol, personoli, ymhelaethu gwybyddol. Trafodir Wiliam ymhellach am effeithiolrwydd personoli, sef “Students learn more because their more able peers can engage with the particular difficulties the student is having” (Wiliam, 2017, tud. 156). Y ôl Wiliam (2017, tud. 167) fe fydd y cyfoed mwy galluog yn fudd o’r gydweithio yma. Awgryma Wiliam (2017, tud. 157) bod dysgu o gyfoedion yn gallu bod yn fwy effeithiol na chyfarwyddyd athro. Wedi dweud hyn, noda Wiliam (2017, tud. 166) bod ymarferwyr yn dueddol o beidio manteisio ar gyfleoedd dysgu o gyfoedion. Gallwn dehongli o’r llenyddiaeth Maes arall a chodwyd yn yr achos critigol oedd canmoliaeth lafar. Y farn gyffredinol heddiw yw “Everyone values being praised and recognised for their endeavours - it is a huge part of nurturing our self-esteem and confidence” (Thom, 2017). Dywedir Pritchard (2014, tud. 15) i lawer o blant ifanc, mae cymeradwyaeth yr athro neu ganmoliaeth gyhoeddus syml yn ddigon gwobrwyol.

Datblygodd B. F. Skinner theori yn yr ysgol ymddygiadol yn yr 1930au, gan adeiladu ar waith blaenorol Edward Thorndike (Gray a MacBlain, 2015, tud. 54). Mae Skinner yn fwyaf enwog am ei waith ar siambr weithredol. Damcaniaeth mwyaf Skinner oedd bod ymddygiad yn benderfynol ar ganlyniadau, megis atgyfnerthiad cadarnhaol neu negyddol, ac fe fydd yr ymddygiad yma yn ailddigwydd o ganlyniad i hon (Aubrey and Riley, 2018, tud. 70; Pritchard, 2014, tud. 8; Gray a MacBlain, 2015, tud. 56). Dadl Skinner, oedd gall atgyfnerthiad cadarnhaol cael effaith hir dymor ar ymddygiad person (Bates, 2019). Yn ddiweddar yn addysg, mae ffocws wedi bod ar ddefnyddio iaith bositif yn lle negyddol wrth roi cyfarwyddiadau, yma, fe welwyd dylanwad yr ysgol ymddygiadol a gwaith B. F. Skinner.

Trafodir Pritchard (2014, tud. 11) am nifer o wendidau’r theori Skinner, ond yn cydnabod efallai mai’r damcaniaethau yn fwy perthnasol am blant sydd yn pryderu, neu yn brin o gymhelliant. Serch hyn, mae rhan fwyaf o ymchwiliadau Skinner wedi eu cynnal ar anifeiliaid, a ni chredwyd eraill fod hon yn medru cael ei gymhwyso i fodau dynol (Aubrey a Riley, 2018, tud. 70). Wedi dweud hyn, mae damcaniaethau Skinner yn dal i fod yn boblogaidd a dal yn dylanwadu ar addysg heddiw (Gray a MacBlain, 2015, tud. 56). Fe welwyd pwyntiau clod, sticeri, a chanmoliath mewn ysgolion.

Mae Dwek (2007) yn feirniadol o ganmoliaeth lafar i blant, yn enwedig canmol deallusrwydd. Barn Dwek (2007) yw bod canmoliaeth yn cysylltu gyda gallu deallusol, nail ai deallusrwydd sefydlog, neu fod deallusrwydd yn medru cynyddu, a bod hwn yn medru dylanwadu ar feddylfryd plant. Awgryma Dwek (2007) i ganmol ymdrech yn lle deallusrwydd. Mae canmol deallusrwydd yn gallu arwain at blentyn yn datblygu meddylfryd sefydlog, a bod yn ofn

methiant (Dwek, 2007). Ar y llaw arall, gall canmolïaeth ymdrech arwain at gynyddu hyder a chymhelliant blentyn (Dwek, 2007).

Mae Nottingham (2013, tud. 36) yn atgyfnerthu gwaith Dwek, ac yn diddwytho o'r ymchwil bod canmol deallusrwydd ddim yn rhoi unrhyw strategaeth i symud ymlaen gyda'r dysgu, a'r canlyniad yw bod plentyn yn teimlo'n ddi-rym. Yn adeiladu ar waith Muller a Dwek, wnaeth Droë (2012) hefyd ymchwilio i'r defnydd o ganmolïaeth lafar yn addysg. Darganfyddid, yn debyg i Dwek, bod canmolïaeth am ymdrech wedi cynyddu ei nodau dysgu, ac agwedd cadarnhaol am ddyfalbarhad.

Barn Hattie (2012, tud.120-121) yw bod lefelau gwahanol o adborth, un o rain yw adborth 'self-level', sef canmolïaeth lafar. Mae Hattie (2012, tud. 120) yn gritigol am ddefnyddio canmolïaeth, ac yn ystyried ei fod yn cymryd ffocws i ffwrdd o'r dasg, ac yn niweidio hunanreoleiddiol. Dadl arall Hattie (2012, tud. 121) yw'r tuedd o gymysgu canmolïaeth gydag adborth. Yn ôl Hattie (2012, tud. 121), mae canmolïaeth gydag adborth yn dangos effaith negyddol yn sawl ymchwil, ac awgryma Hattie "do not mix praise into the feedback prompt, because this dilutes the effect!" Er hyn, mae ymchwil gan Morris and Zentall (2014) wedi darganfod bod canmolïaeth wedi gweithio'n dda gyda disgyblion, hyd yn oed canmolïaeth amwys, lle welwyd canlyniadau cadarnhaol gyda dyfalbarhad. Felly, fe allwn ddiddwytho o'r holl lenyddiaeth, bod manteision i ganmolïaeth lafar, yn enwedig canmolïaeth ymdrech blentyn.

Gwerthuso

Gallwn ddiddwytho o'r llenyddiaeth bod yna manteision clir am ddefnyddio cyfoedion er mwyn hybu dysgu. Mae theori dysgu Piaget a Vygotsky, er hen, yn cael ei weithredu heddiw yn ysgolion megis Reggio Emilia, sy'n enwog am ddysgu yn gymdeithasol (Learning and Teaching Scotland, 2006, tud. 1). Fe weithiodd Plentyn A ar ben ei hun ar lawr y dosbarth, ac fe welwyd o'r arsylwad, ei fod yn dibynnu yn bennaf ar gyfarwyddiadau o'r cynorthwyydd, er mwyn dangos y cam nesaf (Gweler Atodiad 1, tud. 13-14). Mae'r achos yma yn hybu damcaniaeth Vygotsky bod plant yn gymdeithasol, ac ni ellir gwneud llawer ar ben ei hun (Crawley, 2017, tud. 87).

Damcaniaeth Vygotsky (Gray and MacBlain, 2015, tud. 84) a Wiliam (2017, tud. 156) oedd bod plant yn buddio o ddysgu o berson oedd yn fwy galluog, ac fe welwyd hwn yn fryn iawn yn ystod yr arsylwad. Mae'r cwricwlwm newydd yn ceisio hyrwyddo disgyblion sydd yn cyrraedd eu potensial academaidd, yn ogystal â datblygu dinasyddion iach a hyderus (Dyfodol Llwyddiannus, 2015). Felly, mae dysgu o gyfoedion yn medru bod yn un ffordd o hyrwyddo hon.

Mae canmolïaeth lafar yn digwydd yn aml, ac yn cael ei weld fel gwobrwyol gan blant (Pritchard, 2014, tud. 15). B. F. Skinner wnaeth damcaniaethu newid ymddygiad yn ôl canlyniad cadarnhaol neu negyddol (Aubrey and Riley, 2018, tud. 70; Pritchard, 2014, tud. 8; Gray a MacBlain, 2015, tud. 56). Yn arsylwad 1, mae Plentyn A yn cael ei chanmol ar ddiwedd y dasg, ac yna yn symud ymlaen i grwydro'r dosbarth (Gweler Atodiad 1, tud. 13-14). Ni newidiodd ei agwedd neu awydd i ddysgu yn ystod yr arsylwad o ganlyniad y ganmolïaeth.

Barn ymchwilwyr megis Dwek (2007) a Nottingham (2013, tud. 36) yw bod hi'n bwysig canmol ymdrech blant, er mwyn rhoi cam ymlaen iddyn nhw, ac wedi'i phrofi mewn ymchwiliadau. O ganmol ymdrech fe ddaw newid meddylfryd a hyder (Dwek, 2007). Ni welwyd Hattie (2012, tud.120-121) bod canmolïaeth yn fuddiol i blant, ac yn pwysleisio pwysigrwydd adborth yn lle. O ganlyniad, gallwn ddiddwytho bod canmol ymdrech sydd yn arwain at adborth yn gam ymlaen yn addysgu. Fe all hwn hyrwyddo dibenion y cwricwlwm newydd trwy greu disgybl iach a hyderus, ac uchelgeisiol (Hawlfraint y goron, 2015, tud. 31).

Ar ôl werthusiad o'r achos, fe gyflwynir tri argymell am gamau addysgu a dysgu nesaf:-

1. Fe fydd Plentyn A yn fuddio o weithio gyda phartner sydd yn hyderus o gwmpas y dosbarth. Ar ddarpariaeth, awgryma bod Plentyn A yn symud o gwmpas y dosbarth gyda ffrind sydd yn medru arwain, er mwyn i Blentyn A dysgu o'r plentyn mwy abl a hyderus.
2. Er mwyn dysgu o gyfoedion, bydd mynediad at waith grŵp neu waith prosiect yn helpu Plentyn A. Gall gwaith grŵp neu bartneriaid cael ei gynllunio, er mwyn hybu weithio gyda chyfoedion e.e. creu darlun fel grŵp yn y gornel greadigol, neu adeiladu twr fel grŵp yn yr ardal adeiladu.
3. Er mwyn codi hyder Plentyn A, hybu dyfalbarhau, a chymryd rheolaeth dros ei ddysgu, gall oedolion y dosbarth canmol ymdrech Plentyn A tra ar dasg, neu wrth orffen tasg. Mae'n bwysig i ganmol yr ymdrech yn hytrach na'r unigolyn e.e. 'Gwaith arbennig, rwyd ti wedi dangos llawer o ymdrech i greu darlun lliwgar'. Mae modd i hwn gweithio fel asesu ar gyfer dysgu.

Adfyfrio

Mae'r model BWA wedi fy ngalluogi i edrych yn ddwfn ar yr achos, a dechrau dehongli beth ddigwyddod a pham (Gweler Atodiad 5, tud. 21-22). Trwy defnyddio'r model BWA, roedd yn bosib torri'r achos mewn i gamau ac adfyfrio ar y camau. Dechreuodd y model BWA hyrwyddo edrych ar elfennau o'r achos oedd yn dda, ac elfennau oedd ddim mor dda, ac yna fe ddaeth yr elfen critigol i fewn (Gweler Atodiad 5, tud. 21-22). Yna hysbysodd y model BWA yr astidiaeth achos.

Wrth ddefnyddio'r model BWA, teimlwn y byddwn yn edrych ar achosion ar lawr y dosbarth yn ddyfnach. Wrth edrych yn ddyfnach ar achosion syml neu ddi-niwed, mae modd gwerthuso rhesymeg tu ol rhai achosion, a meddwl am y camau nesaf i'r unigolyn neu grwp o ddysgwyr. Mae'r achos a dadansoddiad wedi lliwio fy natblygiad proffesiynol, ac wedi dyfnhau fy awydd i wella sgiliau proffesiynol. Wedi dweud hyn, mae hefyd wedi dylanwadu ar fy natblygiad personol, am fod hyder gallu yn cynyddu, sy'n buddio datblygiad proffesiynol a phersonol. Byddwn yn defnyddio'r profiad o'r aseiniad yma i hybu edrych yn ddwfn i achosion, a deall mae angen parhau i wneud trwy fy ngyrfa.

Casgliad

I grynhoi, mae'r astudiaeth achos yma wedi edrych ar achos critigol a welwyd mewn dosbarth. Defnyddir y dull o arsylwi cyfranogwyr, er mwyn gweld unigolion mewn sefyllfaoedd 'go iawn' (Cohen, Mannion a Morrison, 2007, tud. 253). Nesaf, defnyddir model BWA er mwyn dechrau dehongli a dadansoddi'r digwyddiad (Gweler Atodiad 5, tud. 21-22). Yn olaf, fe greu astudiaeth achos o'r achos critigol.

Edrychwn ar unigolyn ar lawr y dosbarth, ac arsylwi achos oedd yn rhoi mynediad i edrych yn ddyfnach ar theori ar resymeg tu ôl yr achos. Cysylltir yr achos gyda'r pedwar diben o'r cwricwlwm newydd, a dadansoddi pa nodweddion o'r dibenion mae angen i'r unigolyn datblygu ymhellach er mwyn "...meithrin uchelgais ac yn annog dysgu am oes" (Hawlfraint y Goron, 2017, tud. 2).

Cododd dau achos o'r arsylwad, y broses o ddysgu o gyfoedion, a chanmoliaeth lafar oedolyn. Wedi gwerthuso'r llenyddiaeth, mae'n glir i weld bod manteision o ddysgu o gyfoedion, yn enwedig cyfoed sydd yn medru arwain y llall (Gray and MacBlain, 2015, tud. 84, Wiliam, 2017, tud. 156). Mae modd hyrwyddo hon drwy greu prosiectau a hybu gweithgareddau grŵp. Ni welwyd manteision canmoliaeth lafar yn yr arsylwad, er hyn, mae ymchwiliadau wedi gweld canlyniadau positif yn y maes yma. Y farn gyffredinol yw ffocysu ar ganmol ymdrech er mwyn i'r unigolyn ail-adrodd yr ymdrech, neu weld ffordd ymlaen yn ei dysgu (Dwek, 2007; Nottingham, 2013, tud. 36). Mae argymhellion wedi rhoi, er mwyn cymryd camau ymlaen i'r unigolyn, ac i drefniant rhai o'r gwaith ddosbarth.

Mae adfyfyrio yn bwysig am ddatblygiad proffesiynol, ac yn galluogi athrawon i edrych yn ôl ar achosion. Trwy adfyfyrio, mae modd dadansoddi, dehongli ac addasu arferion. Mae safonau dysgu newydd yng Nghymru yn dweud "Mae dysgu proffesiynol yn cymryd addysgeg yn ddyfnach" (Hawlfraint y Goron, 2018). Mae astudiaeth achos yn hybu edrych yn ddyfnach ar achosion, ac mae modd gwella datblygiad proffesiynol o ganlyniad i hon.

Llyfryfiaeth

Abtahi, Y (2017) 'The 'More Knowledgeable Other': A Necessity in the Zone of the Proximal Development?', *For the Learning of Mathematics*, 37(1) tud. 31-35. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/318780971_The_'More_Knowledgeable_Other'_A_Necessity_in_the_Zone_of_Proximal_Development (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Aubrey, K., Riley, A. (2018) *Understanding and Using Educational Theories*. Ar gael yn: <https://books.google.co.uk/books?id=DHR0DwAAQBAJ&printsec=frontcover&dq=learning+theories&hl=en&sa=X&ved=0ahUKEwi5saWrtKPIAhXIMMAKHe43BcgQ6AEIUjAG#v=onepage&q=learning%20theories&f=false> (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Bates, B. (2019) *Learning Theories Simplified: ...and how to apply them to teaching*. Ar gael yn: https://books.google.co.uk/books?id=f0BuDwAAQBAJ&dq=learning+theories&source=gbs_navlinks_s (Darllenwyd: 17 o Hydref 2019).

Bell J. (2005) *Doing your Research Project*. 4ydd Arg. Llundain: Open University Press

Bell J., Waters S. (2018) *Doing your research project A Guide for First-time researchers* (7th Edition) Open University Press: London.

British Educational Research Association [BERA] (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4ydd Arg. Ar gael yn: <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>. (Darllenwyd: 9 Hydref 2019).

Cohen, L., and Manion, L., and Morrison, K. (2007) *Research Methods in Education*. 6ed Arg. Abingdon: Routledge.

Cohen, L., and Manion, L., and Morrison, K. (2011) *Research Methods in Education*. 7fed Arg. Abingdon: Routledge.

Crawley, K. (2017) *Child Development a practical introduction*. 2il Arg. Llundain: Sage Publications.

Denscombe, M. (2017) *The Good Research Guide For small scale social research projects*. 6ed Arg. Llundain: Open University Press.

Dowling, M. (2010) *Young Children's Personal, Social and Emotional Development*. 3ydd Arg. Llundain: Sage Publications.

Droe, K. L. (2012) 'Effect of Verbal Praise on Achievement Goal Orientation, Motivation, and Performance Attribution', *Journal of Music Teacher Education*, 23(1), tud. 63 –78. Ar gael yn:

https://www.researchgate.net/publication/270699676_Effect_of_Verbal_Praise_on_Achievement_Goal_Orientation_Motivation_and_Performance_Attribution (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).

Dwek, C. (2007) 'The Perils and Promises of Praise', *Educational Leadership*, October (Vol. 65(2), tud. 34-39. Ar gael yn: http://mereworth.kent.sch.uk/wp-content/uploads/2015/04/growth_mindsets_dweck-praise-effort.pdf (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Estyn (2016) *Adroddiad Estyn*. Ar gael yn:

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/██████████>
██████████ (Darllenwyd: 2 Hydref 2019).

Gray, C. a MacBlain, S. (2015) *Learning Theories in Childhood*. Llundain: Sage Publications.

Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers*. Ar gael yn: <https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/readonline/9780203181522> (Darllenwyd: 18 Hydref 2019).

Hawlfraint y Goron (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>
(Darllenwyd: 6 Hydref 2019).

Hawlfraint y Goron (2017) *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl*. Ar gael yn:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/addysg-yng-nghymru-cenhadaeth-ein-cenedl.pdf> (Darllenwyd: 13 Hydref 2019).

Hawlfraint y Goron (2018) *Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgolion yng Nghymru*.

Ar gael yn: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/c7/51/6e/f9/2658478caac692c6e220dcce/professional-standards-for-school-practitioners-in-wales.pdf> (Darllenwyd: 20 Hydref 2019).

Learning and Teaching Scotland (2006) *The Reggio Emilia Approach to Early Years Education*. Ar gael yn:

https://education.gov.scot/improvement/documents/elc/elc35_reggioemilia/elc35_reggioaug06.pdf (Darllewyd: 15 Hydref 2019).

Llywodraeth Cymru (2019a) *Safonau Proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth*

<https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/9c/06/b9/58/b1ca47568dafc2dbaea3942b/safonau-proffesiynol-ar-gyfer-addysgu-ac-arweinyddiaeth-pdf-rhyngweithiol-ar-gyfer-cyfrifiaduron-personol.pdf> (Darllenwyd: 22 Hydref 2019).

Llywodraeth Cymru (2019b) *Fy Ysgol Lleol*. Ar gael yn:

<http://mylocalschool.gov.wales/School/██████████> (Darllenwyd: 6 Hydref 2019).

Morris, B., Zentall, S. (2014) *High fives motivate: the effects of gestural and ambiguous verbal praise on motivation*. Ar gael yn:

<https://www.frontiersin.org/articles/10.3389/fpsyg.2014.00928/full> (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning*. Ar gael yn: <https://www-dawsonera-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/readonline/9780203559079> (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Routledge: Abingdon.

Pritchard, A (2014) *Ways of Learning: Learning Theories and Learning Styles in the Classroom*. Routledge: Abingdon.

Stone, J. (2012) 'A Vygotskian Commentary on the Reggio Emilia Approach', *Contemporary Issues in Early Childhood*, 13 (4), tud. 276-289. Ar gael yn:

<https://journals.sagepub.com/doi/pdf/10.2304/ciec.2012.13.4.276> (Darllenwyd: 18 Hydref 2019).

Thom, J (2017) 'Well done? A guide to using praise effectively in the classroom', *The Guardian*, 18 Hydref. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/teacher-network/teacher-blog/2017/oct/18/well-done-a-guide-to-using-praise-effectively-in-the-classroom> (Darllenwyd: 17 Hydref 2019).

Tripp, D. (1993) *Critical Incidents in Teaching*. Abingdon: Routledge.

Wiliam, D (2017) *Embedded Formative Assessment*. Ar gael yn: <https://ebookcentral-proquest-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/lib/trinity/reader.action?docID=5105912&ppg=5> (Darllenwyd: 19 Hydref 2019).

Yr Athrofa (2018) *Mae Kirsty Williams yn ymweld â'r Athrofa i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o athrawon dosbarth*. Ar gael yn: <https://athrofa.cymru/cy/2019/05/23/mae-kirsty-williams-yn-ymweld-ar-athrofa-i-ysbrydolir-genhedlaeth-nesaf-o-athrawon-dosbarth/> (Darllenwyd: 5 Hydref 2019).

Atodiad 1

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 1

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19
Manylion y wers: Mae'r wers yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau darllen / sgiliau ffoneg. Mae'r sesiwn yn defnyddio'r pecyn Tric a Chlic i ddatblygu'r sgiliau yma. Mae'r athrawes yn esbonio bod y plant yn mynd i wneud 5-10 munud ar y carped fel mewnbwn, ac yna yn mynd i wneud gweithgareddau ar lawr y dosbarth. Mae un dasg ffocws gyda'r athrawes ddosbarth, mae'r disgyblion yn gweithio ar ddatblygu sgiliau ysgrifennu wrth ffurfio eu henw ar fyrddau gwyn bach. Mae'r cynorthwydd ddosbarth yn asesu unigolion trwy ddefnyddio asesiad enwi llythrennau Tric a Chlic, mae hi'n galw unigolion draw iddi. Mae darpariaeth ar lawr y dosbarth i'r grwpiau eraill.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mae diwylliant y dosbarth yn ffocysu ar ddilyn rheolau ysgol a chreu naws o wrando ar ei gilydd. Mae'r disgyblion yn deall sut i ddod mewn i'r dosbarth ar ôl amser chwarae. Mae'r athrawes yn hyrwyddo hon trwy chwarae cerddoriaeth glasurol er mwyn helpu'r disgyblion i setlo, ac i fod yn barod i weithio. Mae bron pob plentyn yn canolbwyntio tra bod yr athrawes yn rhoi mewnbwn. Mae rhai disgyblion yn colli canolbwyntied yn ystod y mewnbwn, ac mae'r athrawes yn ceisio tynnu sylw nhw yn ôl, trwy ofyn cwestiynau a chanmol y disgyblion sy'n gwrando ac yn ymateb. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn hyderus ac yn gwrando ar eu cyfoedion.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Mae yna bwrpas clir o ran datblygu sgiliau ffoneg, mae Tric a Chlic yn rhaglen poblogaidd i ddefnyddio yn y cyfnod sylfaen. Mae darpariaeth yn hyrwyddo hon trwy fynd ar Ap ar yr Ipad, datblygu sgiliau 'fine motor skills' trwy baentio a chreu lluniau creadigol. Amcan y cynorthwydd ddosbarth yw asesu unigolion ar ei gwybodaeth flaenorol o enwi llythrennau.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y dasg, ac ar dasg. Ar ddarpariaeth, mae bron pob dysgwyr yn dilyn cyfarwyddiadau'r gweithgaredd, ac yn cyflawni'r dasg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?)



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Mae bron pob disgybl yn dilyn y wers. Mae'r disgyblion sy'n gweithio gyda'r athrawes yn edrych fel petai yn cael ei herio gan fod yr athrawes yn gwahaniaethu'r dasg. Mae rhai disgyblion yn ysgrifennu yn annibynnol heb gymorth gweledol, a rai eraill yn derbyn cymorth llun o'i enw. Mae dau ddisgybl yn olrhain ei enw. Mae'r ardaloedd darpariaeth yn ceisio datblygu sgiliau annibynnol disgyblion. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn medru gweithio yn annibynnol.

Asesu

(Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?)

Mae'r athrawes yn cwestiynu'r plant yn gyson trwy'r mewnbwn er mwyn asesu'r ddealltwriaeth. Mae'r athrawes yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn uchel i gwestiynau, a chyfleoedd i ymateb fel grŵp ar y carped. Mae'r athrawes yn defnyddio gemau ar y cyfrifiadur i hyrwyddo'r ddealltwriaeth ac i wneud yn hwylus. Wrth roi'r mewnbwn, mae'r athrawes yn sefyll yn groeslin i'r disgyblion er mwyn cadw pawb mewn golwg. Wrth gynnal y dasg ffocws, yr oedd yr athrawes yn eistedd ar fwrdd siâp pedol, yr oedd hon yn galluogi i gadw llygaid ar y dasg, ac i fod yn weledol i bob disgybl. Yn ystod y dasg, roedd yr athrawes yn cwestiynu a chynnig cymorth i'r disgyblion, ac yn rhoi tasgau ychwanegol i blant oedd yn ffurfio yn anghywir. Gorffennodd y wers / tasg heb asesiad o'i ddealltwriaeth.

Manylebau / Achosion Beirniadol

(Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?)

Ar ddarpariaeth mae Plentyn A yn crwydro'r dosbarth ac yn edrych yn swil ac yn anesmwyth am ychydig. Mae Plentyn A yn edrych draw at yr ardal greadigol yn gyson. Aeth Plentyn A i fyny at y cynorthwydd ddosbarth i ofyn i fynd yn yr ardal greadigol i wneud tasg, ond yr oedd yr ardal yn llawn. Awgrymodd y cynorthwydd paentio yn lle.

Mae Plentyn A yn paentio llun creadigol am tua 5 munud, ac yna'n stopio. Mae Plentyn A yn dechrau edrych o gwmpas yr ystafell yn anesmwyth eto. Ar ôl gyfnod, mae Plentyn A yn mynd i fyny i'r gynorthwydd i ddweud bod hi mhoen gwneud gwen ar y wyneb. Plentyn A yn edrych yn eithaf ansicr, mae'r cynorthwydd yn awgrymu i Blentyn A i ofyn i ffrind am fenthylg paent coch. Mae Plentyn A yn cerdded yn ôl, yn edrych yn eithaf ansicr, ac yna yn cymryd y brwsh paent coch. Mae'n paentio ceg, ac yn rhoi'r brwsh paent coch yn ôl yn fuan. Plentyn A yn dychwelyd nôl i'r gynorthwydd ac yn dweud 'fi moen glas nawr', eto mae'r cynorthwydd yn dweud i fynd i ôl y paent glas o'r disgybl arall. Plentyn A yn gwneud yr un peth ar dro diwethaf, sef cymryd y brwsh a rhoi yn ol yn cloi. Mae Plentyn A yn gweld cyfoedion yn newid lliwiau yn gyson, ac yn dechrau copio. Yn olaf mae plentyn A yn dangos y llun i'r cynorthwydd, derbyn 'Da iawn!', a rhoi'r llun i sychu ac yn cerdded o amgylch y dosbarth.

Atodiad 2

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 2

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/9/19 Sesiwn olaf. Manylion y wers: Sesiwn olaf y dydd. Mae'r athrawes wedi rhannu'r amserlen y diwedd y dydd gyda'r disgyblion, ac yn dweud eu bod yn mynd i chwarae gemau ar y carped am gyfnod. Mae'r athrawes yn rhoi cyfarwyddyd i'r disgyblion i ffurfio ac eistedd mewn cylch. Mae'r athrawes yn modelu gêm rholio pêl i ddisgybl arall, gan ganu cân syml sydd yn enwi'r disgybl. Mae'r athrawes yn dweud rheol y gêm yw, dim ond y person sy'n cael ei enwi sy'n cael dal neu gyffwrdd y bêl.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Mae naws y dosbarth yn brwdfrydig am chwarae gêm. Mae'r digyblion yn medru ddilyn cyfarwyddiadau a chreu cylch o amgylch y carped. Mae'r athrawes yn esbonio'r gêm a rheolau gêm i'r disgyblion. Mae pawb i weld yn canolbwyntio. Mae angen i'r athrawes ail-adrodd rhai o'r rheolau ar adegau er mwyn gadw trefn.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Amcan y sesiwn oedd cael bach o gyffro cyn diwedd y dydd, ac i gael disgyblion i ddilyn rheolau gêm. Roedd y gêm hefyd yn atgyfnerthu rheolau'r dosbarth, sef eistedd yn daclus a chymryd tro. Wrth ganu cân, mae'r disgyblion hefyd yn dechrau adnabod patrymau iaith a ddilyn rhythm cân. Mae amser ar y carped hefyd yn rhoi amser i athrawes ddod i adnabod ei phlant, ac asesu llafaredd a hyder plant.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Mae'r athrawes yn rhannu'r cyfarwyddiadau gyda'r disgyblion er mwyn chwarae'r gêm yn iawn. Mae pawb yn medru cyfrannu at y gêm, ac yn llwyddo rholio pêl at ddisgybl arall. Wrth ail-adrodd rheolau, mae disgyblion yn cydymffurfio, ac mae'r gêm yn gadw'n drefnus.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Mae pob disgybl yn cyfrannu i'r wers, ac i weld yn mwynhau'r gêm. Gaiff pob disgybl ei herio trwy'r athrawes yn rhoi cymorth, neu adael iddyn nhw chwarae yn annibynnol.

Asesu

Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?

Mae'r athrawes yn rhannu rheolau'r gêm gyda'r disgyblion er mwyn iddyn nhw ddeall beth i wneud. Wrth chwarae'r gêm, mae'r athrawes yn asesu os yw'r disgyblion wedi deall.

Manylebau / Achosion Beirniadol

Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?

Mae pawb yn ymateb yn dda i'r gêm, ac yn dilyn y rheolau yn eithaf da. Mae Plentyn A yn derbyn tro i rolïo'r bêl. Mae'r athrawes yn canu'r gân ac yn aros i Blentyn A i ddweud enw disgybl. Mae Plentyn A i weld yn anodd gwneud penderfyniad ar bwy i ddewis. Mae'r athrawes yn rhoi 10-15 eiliad iddi i enwi plentyn, ond mae dal i weld yn anodd gwneud penderfyniad, ac yn dechrau edrych yn ansicr. Mae'r athrawes yn holi'r disgyblion sydd heb gael tro, i roi eu llaw i fyny i helpu Plentyn A. Ar ôl gyfnod, mae plentyn A dal yn ansicr, ac mae'r athrawes yn enwi plentyn i rowlïo'r bêl i. Mae Plentyn A yn edrych yn hapus i rolïo'r bêl i blentyn arall, ac i weld yn mwynhau gweddill y gêm.

Atodiad 3

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 3

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: Roedd dwy dasg ffocws gyda'r wers. Un dasg gyda'r athrawes ddosbarth, ac un gan y cynorthwydd. Tasg gyda'r athrawes oedd ysgrifennu rhestr o bethau oedd yn bwysig iddyn nhw, gan edrych ar lun digidol roedden nhw wedi creu'r wythnos cyn ar yr iPad. Roedd y dasg yma yn cael ei wneud yn llyfr ysgrifenedig y plant. Roedd y cynorthwydd yn gwneud sesiwn Tric a Chlic gyda grŵp ddarlennu y dydd. Roedd y disgyblion eraill ar ddarpariaeth o amgylch y dosbarth, megis tywod, paentio, toes, lliwio, iPads, adeiladu.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Yr oedd 4 disgybl yn gweithio gyda'r athrawes, a pum ddisgybl gyda'r cynorthwydd, a phawb arall ar ddarpariaeth. O edrych o amgylch y dosbarth, mae pawb i weld ar dasg, ac yn mwynhau beth maen nhw'n gwneud.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Prif amcan y wers oedd datblygu sgiliau ffonolegol ac i ddechrau datblygu sgiliau cofnodi plant. Amcan y dasg yw trafod ac ysgrifennu am eitemau sydd yn bwysig iddyn nhw. Un o'r amcanion clir yw bod yr athrawes yn dod i adnabod ei phlant hi, trwy drafod beth maen nhw'n hoffi a beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r athrawes hefyd yn asesu ffurfio llythrennau, cofio llythrennau a medru clywed am y sŵn cychwynnol.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Mae'r grŵp sydd ar dasg gyda'r athrawes yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda, ac i weld yn glir ar beth maent yn cyflawni. Mae'r disgyblion yn cydweithio yn dda gyda'r athrawes ac yn holi ac ateb cwestiynnau.
Mynediad a her (Ydy pob myfyriwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyriwr ei herio?) Mae'r 4 disgybl yn dilyn y dasg yn dda, ac yn glir am beth i wneud. Roedd y 4 disgybl yn medru ffurfio yn eithaf da, ond yn eithaf gwahanol o ran cofio, clywed ac adeiladu llythrennau. Cafodd pob disgybl ei herio trwy wahaniaethu gan yr athrawes. Yr oedd un disgybl yn copïo'r llythrennau o fwrdd gwyn bach. Roedd 2 disgybl yn medru



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

enwi llythrennau cychwynnol, ond angen cymorth i ysgrifennu, felly yn copïo, ac un disgybl yn medru ysgrifennu yn annibynnol.

Roedd yr athrawes yn gwneud defnydd o gwestiynu a chynnig dewis i'r disgyblion trwy ofyn e.e. 'Wyt ti moen ysgrifennu Lego neu blociau?' a 'Wyt ti eisiau ysgrifennu mam a dad neu deulu?'

Asesu

(Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?)

Wrth wahaniaethu'r dasg, mae'r athrawes yn asesu'r disgyblion ar eu dealltwriaeth a'i gallu. Mae'r athrawes yn asesu yn ol cod marcio'r ysgol, ac yn cwestiynnu'r disgyblion yn gyson trwy'r dasg i asesu eu dealltwriaeth.

Ar ddiwedd y dasg, mae'r athrawes yn defnyddio'r dull o hunan asesu gyda'r plentyn (Asesu ar gyfer dysgu). Rhaid i'r plentyn asesu ei waith, e.e. asesu ysgrifennu, torri mas ac ansawdd y llun. Mae pob plentyn yn cyflawni'r hunan asesu, ac yn medru gwneud penderfyniad pendant am ei waith. Mae'r athrawes yn rhoi targed, ac yn rhannu'r targed yma gyda'r plentyn.

Manylebau / Achosion Beirniadol

(Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?)

Yn ystod y sesiwn yma, mae'r plant yn cael eu herio yn addas ynol ei gallu.

Mae'r athrawes yn gwahaniaethu'r gwaith yn ystod y dasg, er mwyn rhoi her i rai, a chymorth i eraill. Mae'r gallu gan yr athrawes i wahaniaethu yn syth, sy'n meddwl bod pob disgybl yn cael ei herio.

Mae'r defnydd o hunan asesu ar ddiwedd y dasg i weld yn gweithio'n dda, roedd y disgyblion wedi ymateb yn hyderus.

Mae un plentyn yn cymryd bach o amser, a bach yn ansicr wrth gofnodi'r llythrennau, felly ofynnodd i ymarfer ar y bwrdd gwyn yn gyntaf, ac wedyn cofnodi yn y llyfr. Roedd yn amlwg bod y plentyn ddim moen ffurfio y anghywir, neu gwneud camgymeriadau. Roedd y disgybl wedi gorffen y gwaith yn olaf, ond yn hapus gyda'r ansawdd ar ôl cymryd amser, ac ymdrechu i wneud yn berffaith.

Atodiad 4

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

NODIADAU ARSYLWI / MAES 4

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 2/10/19
Manylion y wers: Darllenodd yr athrawes lyfr i'r dosbarth o'r enw Mr Croc. Y dasg i grŵp o blant oedd tynnu llun o'r llyfr, gan gofio nodweddion y stori. Roedd y dasg yma yn mynd i fod yn dasg annibynnol.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Roedd y disgyblion yn cyffrous i gael stori, ac yn holi ac ateb cwestiynau. Roedd pawb i weld yn canolbwyntio ar y stori, ac yn cynnig storiâu neu digwyddiadau eu hun. Mae trafodaethau bach yn cael ei gynnal rhwng bob tudalen, ac mae'r athrawes yn rhoi amser i bawb siarad.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Ar ddechrau'r wers, mae'r athrawes yn rhannu beth oedd y dasg i wneud yn siŵr bod pawb yn deall. Amcan y wers yw gwrando ar stori, ac yna creu llun gan ddefnyddio rhai o nodweddion y stori, e.e. mynydd, tŷ pinc, dau goed a Mr Croc.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Trafododd yr athrawes am nodweddion y llyfr wrth ddarllen y stori. Mae'r athrawes yn trafod ac ail-adrodd rhannau o'r stori gyda'r disgyblion. Mae'r athrawes yn cyfeirio at y nodweddion sydd angen rhoi yn y llun, felly yn rhannu'r meini prawf llwyddiant gyda'r plant. Cafodd y disgyblion cyfarwyddiadau bod y dasg yn mynd i fod yn annibynnol, felly dim cymorth gan oedolion.
Mynediad a her Mae'r athrawes yn herio'r disgyblion trwy'r dechneg o gwestiynu a chynnal trafodaeth. Mae hi hefyd yn gofyn i'r disgyblion i ragfynegi'r tudalen nesaf. Mae'r dasg yn heriol am fod hi'n dro gyntaf iddyn nhw wneud tasg annibynnol. Mae'r dasg yn eithaf agored, lle mae'n rhaid iddyn nhw ddefnyddio sgiliau creadigol a dehongli'r stori ac yna creu darlun.
Asesu (Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?) Fel y mynediad a her, mae'r athrawes yn asesu'r disgyblion trwy cwestiynnu yn ystod y mewnbwn. Am eu bod yn dasg annibynnol, caiff y disgyblion asesu ar ei



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

darlun gorffenedig. Cawson nhw eu hasesu yn ol y nodweddion a roddir yn y llun (y nodweddion o lyfr Mr Croc).

Manylebau / Achosion Beirniadol

(Oes adegau ac enghreifftiau trawiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?)

Fe ofynnir i Flwyddyn 1 i wneud y dasg yn gyntaf, mae 5 yn y grŵp.

- Pawb ar dasg yn syth
- Pawb yn defnyddio'r lliwiau cywir a chreu darlun sy'n cyfateb ar lyfr
- Disgyblion yn cydweithio ac yn siarad Cymraeg i'w gilydd
- Pawb yn dangos eu gwaith i'w gilydd ac yn falch o beth maen nhw wedi llunio
- Rhai wedi anghofio beth mae Mr Croc yn edrych fel, unigolyn yn mynd i ol y llyfr a throi'r tudalen i weld Mr Croc
- Un plentyn yn dweud bod nhw wedi gorffen - plentyn arall yn edrych ar y llun, a dweud bod nhw wedi anghofio'r sgarff lliwgar - plentyn yn cofio, ac yn mynd ati i greu sgarff lliwgar.
- Llawer o siarad a sgwrsio a gwerthuso gwaith ei hun.
- Cyffrous i ddangos yr athrawes ar ol gorffen
- Pawb wedi cyflawni'r dasg yn annibynnol

Yr achos i drafod yw'r cydweithio rhwng y disgyblion, a bod nhw'n asesu eu cyfoedion wrth weithio yn annibynnol, fel y gwelwyd uchod. Hefyd maen nhw'n cymryd cyfrifoldeb dros bethau, yn lle mynd i ofyn am gymorth e.e. mynd i ol y llyfr i weld llun Mr Croc.

Atodiad 5**Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) 1****Dyddiad/Date: 27/9/19****Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Unigolyn ar ddarpariaeth**

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	- Teimlaf fod yr athrawes gyda rheolaeth dda dros y dosbarth ac yn rhaeadru rheolau'r dosbarth yn gyson i'r disgyblion. - Teimlaf fod y disgyblion yn hapus, ac yn mwynhau'r ddarpariaeth. Mae diwylliant a nawys y dosbarth yn bositif, ac mae'r athrawes yn creu ansawdd tawel a gyfeillgar. Mae'r oedolion yn canmol y disgyblion. - Teimlaf fod Plentyn A yn dawel ac yn ansicr ar adegau, ac yn colli diddordeb yn hawdd. Teimlais yn drist bod Plentyn A ddim gyda mwy o hyder i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros ei hun, a dros ei phenderfyniadau ac yn gallu ofyn i gyfoedion.
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	- Roedd yr athrawes yn ail adrodd rheolau'r dosbarth yn gyson i ddisgyblion. - Roedd y cynorthwydd yn ceisio hybu Plentyn A i fod yn fwy annibynnol, trwy rhoi cyfarwyddiadau er mwyn cymryd y cam nesaf. Roedd Plentyn A wedi ymateb yn eithaf positif i'r awgrymiadau. - Wrth arsylwi ar y ddarpariaeth, mae hyder Plentyn A yn isel iawn, a ddim o reidrwydd yn cael ei adeiladu nôl i fyny, neu arsylwi gan yr oedolion yn yr achos yma. - Does dim digon o hyder gyda Plentyn A i ofyn am gymorth wrth gyfoedion
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	- Mae nawys ac awyrgylch y dosbarth yn gyfeillgar ac yn hybu dysgu, felly byddwn yn cadw hon yr un fath. - Roedd y ddarpariaeth yn briodol am y disgyblion. - Gyda'r ddihyder, efallai mai datblygiad personol a chymdeithasol Plentyn A yn fwy isel nag eraill yn y dosbarth, a dyma pam mae hi'n ffeindio'n anodd gwneud penderfyniadau a'i weithredu.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	• Atebion posib i'r materion a chodwyd o'r achos yw yn lle rhoi ateb yn syth i'r plentyn, efallai ofyn 'Beth wyt ti'n meddwl sydd angen gwneud?' a gweld beth yw ymateb y disgybl. • Efallai fydd yn werth i'r disgybl mynd ar ddarpariaeth gyda ffrind, neu gyda phartner fel bod hi'n gallu dysgu o'i gyfoedion. • Rhoi llawer o ganmoliaeth i'r dysgwr er mwyn hybu hyder
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 6

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) 2

Dyddiad/Date: 26/9/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Plentyn A yn chwarae gêm

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	- Teimlaf yn drist bod Plentyn A ddim yn medru penderfynnu ar unigolyn i rollo pel at. - Teimlais bach yn 'frustrated' ar y pryd, oherwydd roeddwn i'n meddwl bod Plentyn A yn medru ymuno gyda'r gêm. - Roedd naws y dosbarth yn hyfryd, ac yn teimlo'n gyfforddus i bawb
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	- Roedd digon o amser gyda Phlentyn A i ateb. Rhoddodd yr athrawes amser meddwl, cyn ateb - Ar ôl diffyg ateb, rhoddodd yr athrawes cymorth i'r disgybl er mwyn iddi beidio mynd yn fwy ansicr, a rhoi mynediad i'r gêm. - Ar ol derbyn cymorth, roedd Plentyn A yn digon hapus yn gwylio'r gêm - Roedd yn siom bod Plentyn A ddim wedi llwyddo gydag ychydig o gymorth, ac roedd rhaid i'r athrawes ddosbarth enwi plenty yn y diwedd.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	- Roedd y dosbarth wedi mwynhau'r gêm yn fawr iawn. - Byddwn yn cadw'r cymorth oedd ar gael os nad oedd yn medru ateb - Mae'n bwysig rhoi digon o amser i blant ymateb. - Roedd awyrgylch/naws positif yn y dosbarth - Achos yr elfen siomedig oedd efallai diffyg hyder, ac anhawster gwneud penderfyniadau o dan amser, neu o flaen dosbarth cyfan

Casgliadau a champau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	• Ateb posib yw efallai i ofyn Plentyn A oes ydy'n nhw'n medru enwi ffrind, ac yna ar ol enwi, ffeindio yn y cylch a rowlio pel iddyn nhw. • Efalliai mae angen hybu hyder y plentyn trwy ganmol a rhoi sylw. • Nesaf byddwn yn ail-adrodd y gêm, ac yn annog Plentyn A i feddwl am ffrind cyn i'r gêm ddechrau er mwyn rhoi digon o amser i wneud penderfyniad.
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	

Atodiad 7**Model Beirniad Wedi Adfyfrio (BWA) 3****Dyddiad/Date:** 2/10/19**Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus):** Poeni am ffurfio llythrennau

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	- Teimlaf yn gyffrous o weld y gwahaniaethu i gyd. - Teimlaf fod yr athrawes yn hollol naturiol wrth wahaniaethu'r dasg wrth asesu gallu'r plant. - Gyda'r un plentyn oedd yn ansicr a chymryd amser – teimlaf yn hapus bod y plentyn eisiau gwella gwaith ac ymarfer yn gyntaf, ond yn ddi-galon am boeni am gamgymeriadau
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Po elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	- Defnydd o wahaniaethu – gwneud yn naturiol trwy gydol y dasg - Plant yn derbyn cymorth neu yn cael eu herio - Roedd y disgyblion yn deall yr hunan asesu – mae'n amlwg eu bod yn gwneud yn gyson yn y dosbarth hwn - Roedd yn amlwg bod Plentyn A yn poeni am ffurfio yn anghywir, a ddim moen gwneud camgymeriadau yn y llyfr.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	- Cadw'r defnydd o wahaniaethu, caiff pob un cymorth a her. - Roedd y dasg yn addas ac yn heriol. - Yn fy marn i, ddi-hyder a phoeni am wneud yn berffaith oedd achos yr elfen siomedig. Roedd yn amlwg bod y plentyn yn ofn o wneud camgymeriadau.
Casgliadau a chymau <i>Conclusions and actions</i> Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd? "What are your possible solutions to the disappointing issues identified?" Beth ydych chi mynd i'w wneud nesaf? "What will you do next?"	- Efallai rhoi bwrdd gwyn iddyn nhw ar ddechrau'r dasg, a ofyn i ffurfio llythrennau cyffredin er mwyn adeiladu hyder. - Dweud i'r plentyn bod dim angen i bethau fod yn berffaith, ond bod chi'n trio eich gorau. - Byddaf yn gwneud yn siwr bod y plentyn yma yn medru ymarfer ffurfio llythrennau yn gyson, er mwyn ennyn hyder.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Atodiad 8

Model Beirniad Wedi Adfyfyrio (BWA) 4

Dyddiad/Date: 3/10/19

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Asesu cyfoedion

Profiad/ Experience	
Teimladau/ <i>Feelings</i> Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	• Teimlaf yn gyffrous iawn wrth weld plant Blwyddyn 1 yn gweithio yn annibynnol • Teimlad arall oedd bod y grŵp yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd • Wrth weld nhw'n helpu ac asesu ei gilydd, roedd yn deimlad balch a hapus
Cofio a Deall/ <i>Remember and Understand</i> Allwch chi restru'r agweddau ar y profiad dysgu a aeth yn dda? "Can you list the aspects of the learning experience that went well?" Pa elfennau o'r profiad dysgu oedd yn siomedig? "What were the elements of the learning experience that were disappointing?"	• Roedd y plant yn gyffrous o greu darlun ar sail y llyfr • Roedd y grŵp yn siarad yn gyson i'w gilydd, ac yn siarad Cymraeg • Roedd y dasg yn rhoi mynediad i bawb, am eu bod yn dasg greadigol, roedd modd i bawb lwyddo • Mae'r plant yn asesu ei gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd heb farnu, maen nhw hefyd yn medru gwneud penderfyniadau yn annibynnol • Doedd dim achos siomedig i raddau, ond yr achos critigol oedd bod plant yn asesu cyfoedion wrth weithio yn annibynnol.
Gwerthuso a dadansoddi/ <i>Evaluate and analyse</i> Beth fyddwch chi'n cadw'r un fath i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol yn y dyfodol? "What will you keep the same to ensure effective teaching and learning in the future?" Beth oedd achos yr elfen siomedig bwysicaf? "What was the cause of the most important disappointing element?"	• Cafodd y plant mewnbwn dwfn, roedd yr athrawes wedi sicrhau bod pawb yn adnabod y stori trwy gwestiynnu'r plant • Roedd y dasg yn addas i bob plentyn, caiff pob plentyn y cyfle i lwyddo • Roedd y dasg yn addas i wneud fel gweithgaredd annibynnol. • Achos critigol – roedd un plentyn wedi anghofio un o nodweddion y stori yn ei ddarlun, a phlentyn arall wedi atgoffa ei gyfoed.

Casgliadau a chamau gweithredu/ <i>Conclusions and actions</i> <i>Beth yw eich atebion posibl i'r materiaon siomedig a nodwyd?</i> <i>"What are your possible solutions to the disappointing issues identified?"</i> <i>Beth ydych yn mynd i'w wneud nesaf?</i> <i>"What will you do next?"</i>	• Mae asesu o gyfoedion yn gallu herio plant, ac yn dda bod nhw'n dysgu o'i gilydd, ac asesu ei gilydd. • Roedd y dasg yma yn dangos bod y grwp yma yn medru gweithio'n annibynnol i safon dda, ac efallai gellir gwneud mwy o dasgau yn annibynnol
Y profiad newydd / <i>Transformed experience</i>	